
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Cynwch, Dolgellau

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith


- Pellter: 5km (3.1 milltir)
- Hyd: Oddeutu 2 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru


V-20220323/2052




Cychwynnwch y daith ger arwydd Saith Groesffordd o'r maes parcio. Dilynwch y llwybr i'r dde i gyfeiriad Llwybr Cynwch.





Ar ôl 250m, dilynwch y llwybr i'r chwith.





Ewch ymlaen am 300m pellach gan ddilyn llwybr i'r chwith heibio i dŷ Gwern Offeiriad.




Dilynwch y llwybr i fyny ac i'r dde trwy'r goedlan. Ar ôl 100m, ewch drwy giât i gae agored.





Dilynwch y llwybr tuag at Llyn Cynwch gan droi i'r dde ac i fyny'r allt wrth ddilyn y wal gerrig.





Parhewch i ddilyn y llwybr ar hyd y wal gerrig lle gwelir nifer o goed derw hynafol. Mae poblogaethau pwysig o gen a mwsogl yn tyfu yn y parcdir ar y dde.




Ar ôl 350m, ewch drwy fwlch yn y wal ac yn fuan iawn cewch olygfeydd bendigedig tua'r gogledd wrth edrych dros Goed y Brenin.




Dilynwch y llwybr i'r chwith wrth yr arwyddbost sy'n arwain at yr hen fwynfa gopr.




Dilynwch y llwybr am 1km nes cyrraedd giât bren. Mwynhewch y golygfeydd o'r Afon Fawddach islaw. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr.




Parhewch i ddilyn y llwybr trwy'r giât yn y wal gerrig.




Ar ôl 500m, ewch drwy giât mewn wal gerrig arall a pharhau i lawr at Llyn Cynwch.




Pan gyrhaeddwch Llyn Cynwch, trowch i'r chwith a dilyn y llwybr o amgylch ymyl gogleddol y llyn.




Ym mhen draw'r llyn, mi fyddwch yn ailymuno â'r llwybr lle y cychwynnoch chi'r daith. Dilynwch y llwybr yn ôl at y maes parcio.